

Datganiad i'r wasg

28 Mai 2008

Angen gwella safonau mewn gwyddoniaeth mewn ysgolion uwchradd

Mae angen hyfforddiant mewn swydd gwell ar athrawon gwyddoniaeth er mwyn gwella safonau i ddysgwyr 14-19 mlwydd oed, dywed adroddiad a gyhoeddir gan Estyn, yr arolygiaeth addysg a hyfforddiant. Mae safonau yn is mewn gwyddoniaeth nag ydynt ym mron pob pwnc arall mewn ysgolion uwchradd, ac mae ansawdd addysgu mewn gwyddoniaeth hefyd yn waeth yn gyffredinol.

Mae chwech Adroddiad Blynyddol diwethaf y Prif Arolygydd wedi adrodd am safonau isel mewn gwyddoniaeth mewn ysgolion uwchradd o gymharu â phynciau eraill, yn enwedig ar lefel TGAU, ond hefyd yn y chweched dosbarth. Mae hyn mewn cyferbyniad ag ysgolion cynradd, lle mae cyflawniad disgyblion mewn gwyddoniaeth gyda'r gorau.

“Mae ymchwil yn dangos nad yw digon o bobl yn astudio gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg y tu hwnt i addysg orfodol. Mae angen i Gymru sicrhau bod ei chenhedloedd i ddod yn gallu ateb ei hanghenion am arbenigwyr mewn gwyddoniaeth a thechnoleg – cydnabyddir bod gwelliannau mewn addysg wyddoniaeth yn ganolog i fynd i'r afael â'r heriau hyn” dywed Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Mae prinder athrawon ffiseg cymwys, arbenigol, ac athrawon cemeg, i raddau llai, yng Nghymru yn golygu bod athrawon sydd â chefnidir mewn bioleg yn addysgu'r pynciau hyn i ddysgwyr mewn llawer o ysgolion. Nid yw'r arfer hwn bob amser yn helpu i roi sylfaen

wybodaeth gadarn i ddysgwyr nac yn symbylu disgyblion a allai o bosibl ddatblygu ymhellach yn y wyddor ffiseg.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth hefyd yn llai effeithiol mewn gwyddoniaeth nag mewn unrhyw bwnc uwchradd arall ac nid yw hyfforddiant mewn swydd yn mynd i'r afael ag anghenion penodol penaethiaid gwyddoniaeth yn effeithiol. Nid yw cyrsiau hyfforddiant yn canolbwyntio ar ddatblygu'r medrau arweinyddiaeth sy'n perthyn yn benodol i'r pwnc, sydd eu hangen i annog addysgu a chynllunio arloesol.

Mae cyrsiau TGAU gwyddoniaeth a gwyddoniaeth atodol a gyflwynwyd ym Medi 2006 yn darparu'n well ar gyfer dysgwyr o ystod ehangach o alluoedd na'r cwrs TGAU gwyddoniaeth dyfarniad dwbl blaenorol. Mae'r cyrsiau newydd hyn yn hyrwyddo datblygiad medrau allweddol, ymwybyddiaeth amgylcheddol a llythrennedd gwyddonol yn fwy effeithiol. Y cwrs TGAU gwyddoniaeth gymhwysol newydd yw un o'r cyrsiau TGAU sy'n tyfu cyflymaf yng Nghymru.

Er bod ysgolion sydd â chweched dosbarth a cholegau addysg bellach fel ei gilydd yn cynnig y prif gyrsiau gwyddoniaeth Safon Uwch, dim ond ychydig o ysgolion sy'n cynnig cyrsiau gwyddoniaeth gymhwysol Safon Uwch, ac ychydig iawn o ddarpariaeth sydd mewn colegau addysg bellach o bynciau ar lefelau 1 neu 2 sy'n gysylltiedig â gwyddoniaeth. Mae'r adroddiad yn galw am rwydweithiau 14-19 i annog partneriaethau gwell rhwng darparwyr i gynnig ystod ehangach o gyfleoedd mewn gwyddoniaeth i ddysgwyr o bob gallu a diddordeb.

Mae adroddiad Estyn yn gofyn bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sicrhau mwy o gyfleoedd hyfforddiant i athrawon nad ydynt yn arbenigo mewn ffiseg a hefyd yn adolygu cymhellion i annog recriwtio a chadw athrawon ffiseg cymwys. Mae Estyn hefyd yn argymhell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu strategaeth genedlaethol i wella safonau ac ansawdd addysgu ac arweinyddiaeth mewn gwyddoniaeth.

DIWEDD

Nodiadau i Olygyddion:

- Mae Estyn, swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn darparu gwasanaeth arolygu a chyngor o ansawdd uchel.

- Comisiynwyd adroddiad Estyn, 'Addysg wyddoniaeth i ddysgwyr 14-19' gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.
- Mae sail y dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn yn cynnwys:
 - adroddiadau o arolygiadau bron 60 o adrannau gwyddoniaeth ysgolion uwchradd er Medi 2004;
 - data gan fyrddau arholi ar rifau mynediad a chyrraethiad mewn arholiadau gwyddoniaeth;
 - adroddiadau diweddar Estyn ar Lwybrau Dysgu 14-19, cydweithio rhwng ysgolion a cholegau AB a phedwar adroddiad ardal diwethaf Estyn;
 - ymweliadau â 13 o ysgolion uwchradd ac un coleg AB yn ystod hydref 2007; a
 - chanfyddiadau o adolygiadau ac adroddiadau ymchwil addysgol diweddar.
- Mae Estyn yn arolygu ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir neu sy'n cael eu hariannu gan awdurdodau lleol, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig, unedau cyfeirio disgyblion, ysgolion annibynnol, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau cymorth ieuenctid, y system cyfiawnder ieuenctid, awdurdodau addysg lleol (AALLau), addysg a hyfforddiant athrawon, dysgu yn y gwaith, cwmnïau Gyrfa Cymru ac elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni'r Ganolfan Byd Gwaith.
- Mae copïau llawn o adroddiadau arolygu ar gael ar wefan Estyn yn www.estyn.gov.uk

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Gina Carrington
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464